

Telerau Safonol ar gyfer Grantiau: £3,000 i £10,000

20/02/2019

[See all updates](#)

Diffiniadau

'rydym', 'ni', 'ein' – Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (sy'n gweinyddu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol).

'chi', 'eich' – y sefydliad(au) y dyfarnwyd y Grant iddo (iddynt) fel y nodwyd yn y Llythyr Hysbysu Grant ac unrhyw sefydliad sy'n cytuno i fod yn derbynwyr grant ar y cyd ac i gydymffurfio â'r Contract Grant.

Amodau grant ychwanegol - unrhyw amodau grant ychwanegol a nodir yn eich Llythyr Hysbysiad Grant.

Cais – eich Ffurflen Gais wedi'i llenwi ac unrhyw ddogfennau neu wybodaeth y byddwch yn eu hanfon atom i ategu'ch cais am grant.

Dibenion Cymeradwy – mae'r Dibenion Cymeradwy yn crynhoi'r Prosiect a ddisgrifir yn eich Cais.

Defnydd Cymeradwy – sut y gwnaethoch chi ddweud y byddech yn defnyddio'r Eiddo yn eich Cais (gan ganiatáu ar gyfer unrhyw newidiadau yr ydym wedi cytuno arnynt i ryddhau unrhyw un o'r Grantiau).

Allbynnau Digidol – yr holl ddeunydd gyda chynnwys treftadaeth sy'n cael ei greu neu ei gopïo i mewn i fformat digidol gennych neu ar eich rhan mewn cysylltiad â'r Prosiect.

Grant – y swm a nodwyd yn y Llythyr Hysbysu Grant.

Contract grant – yn cynnwys y canlynol;

- Llythyr Hysbysiad Grant;
- Telerau Grant Safonol;
- Unrhyw Amodau Grant Ychwanegol; a
- Ffurflen Caniatâd i Ddechrau wedi'i llofnodi.

Dyddiad y daw'r Grant i Ben – y dyddiad y mae'n rhaid i chi gwblhau'r Prosiect fel y nodwyd yn y Llythyr Hysbysu Grant.

Llythyr Hysbysu Grant – ein llythyr sy'n cadarnhau ein bod yn dyfarnu Grant i chi.

Canllawiau eraill – yr holl ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'ch Prosiect ar ein gwefan, yn cynnwys:

- Arweiniad Arferion Da
- Arweiniad Gwerthusiad

Trwydded Agored – mae trwydded agored yn rhoi caniatâd i gael mynediad at waith, ei aildefnyddio a'i ailddosbarthu heb lawer, neu dim cyfyngiadau, o gwbl. Mae sawl trwydded agored ar gael ond y drwydded

agored ddiodyn sydd ei hangen arnom yw trwydded [Creative Commons Attribution 4.0 International \(CC BY 4.0\)](https://creativecommons.org/licenses/by/4.0/), neu gyfwerth.

Canlyniadau - rydym yn disgrifio'r gwahaniaeth rydym am ei wneud gyda'n cyllid drwy set o naw canlyniad. Y canlyniadau yw newidiadau, effeithiau neu fuddion sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect. Bydd pob un o'r prosiectau a ariennir gennym yn cyflawni un neu fwy o'r Canlyniadau hyn.

Ffurflen Caniatâd i Ddechrau - y ffurflen rydych yn ei chyflwyno i ni yn gofyn am ganiatâd i ddechrau'r Prosiect.

Caniatâd i Ddechrau - ein cadarnhad ysgrifenedig y gallwch gychwyn y Prosiect.

Canllaw Ceisiadau'r Rhaglen – y ddogfen sy'n nodi cwmpas y rhaglen a sut i wneud cais.

Prosiect – y dibenion a gymeradwywyd gennym fel y nodwyd yn y Cais (gan ystyried unrhyw newidiadau rydym ni a chi wedi'u cytuno yn ysgrifenedig hyd at ddyddiad ein penderfyniad i ddyfarnu'r Grant i chi ac unrhyw newidiadau y dywedwn wrthyhych amdanynt yn y Llythyr Hysbysu Grant). Disgrifir y dibenion hyn fel 'Dibenion Cymeradwy' weithiau, ac maent yn cynnwys chi yn cael ac yn defnyddio cyllid partneriaeth fel y nodwyd yn y Cais, a'r modd y dywedodd y byddech yn defnyddio'r Eiddo (os oes eiddo).

Dyddiad Cwblhau'r Prosiect – dyddiad y llythyr y byddwn yn ei anfon atoch yn nodi y bod y Prosiect wedi'i gwblhau.

Eiddo – unrhyw eiddo rydych yn ei brynu, ei greu, ei dderbyn neu ei adfer, neu eiddo sydd fel arall yn cael ei ariannu gan y Grant gan gynnwys allbwn digidol, hawliau eiddo deallusol ac unrhyw ddogfennau rydych yn eu cynhyrchu neu'n eu gorchymyn fel rhan o'r Prosiect.

Derbyn Grant - y canllawiau rydym yn eu cyhoeddi i esbonio sut y byddwn yn talu'r Grant, monitro'r Prosiect a chytuno ar newidiadau i'r Grant.

Telerau Grant Safonol - y telerau safonol a nodir yma

Contract Tymor y Grant - hyd y Contract Grant fel y'i nodir yn y Llythyr Hysbysiad Grant.

Trydydd Parti – unrhyw un o berchenogion Eiddo Trydydd Parti.

Eiddo Trydydd Parti – unrhyw eiddo a nodir yn y cais sy'n perthyn i Drydydd Parti neu sy'n cael ei reoli ganddo.

Gofynion Perchenogaeth Trydydd Parti - y gofynion a nodir yng Nghanllawiau Ceisiadau'r Rhaglen a Derbyn Grant sy'n ymwneud â'r trefniadau cytundebol y disgwyliwn i chi ymrwymo iddynt gyda Thrydydd Parti.

Cyflawni'r Dibenion a Gymeradwywyd

1. Rhaid i chi ddefnyddio'r Grant a'r Eiddo (os oes un) ar gyfer y Prosiect yn unig. Gellir cytuno ar newidiadau i'r prosiect mewn gohebiaeth bellach â ni. Ni allwch drosglwyddo'r Grant.
2. Ni ddylech ddechrau ar y gwaith na gwneud newidiadau i'r Prosiect cyn i chi dderbyn caniatâd i ddechrau.
3. Mae'n rhaid i chi gwblhau'r prosiect yn ôl y Dyddiad Terfyn Grant ac wedyn defnyddio'r eiddo ar gyfer y defnydd cymeradwy yn unig yn ystod tymor y contract grant.

4. Yn ogystal â'r Telerau Grant Safonol hyn, rhaid i chi ddilyn yr amodau grant ychwanegol (os oes rhai) a nodir yn y Llythyr Hysbysu Grant a bodloni'r gofynion a nodir yng Nghanllawiau Ymgeisio'r Rhaglen, Derbyn Grant, y canllawiau sydd gennym am gydnabod eich grant ar ein gwefan, ac unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddir ar ein gwefan sy'n berthnasol i'r Prosiect

5. Mae'n rhaid i chi gynnal y Prosiect yn unol â'r arferion gorau cyfredol yn eich maes treftadaeth ac i safon sy'n briodol i Brosiect sy'n bwysig i'r dreftadaeth genedlaethol. Rhaid i chi ddilyn pob deddfwriaeth a rheoliad sy'n berthnasol.

Monitro Prosiect

6. Mae'n rhaid i chi roi i ni unrhyw adroddiadau cynnydd a gwybodaeth ariannol neu wybodaeth a chofnodion eraill y gall fod eu hangen arnom o bryd i'w gilydd mewn perthynas â'r Grant neu'r Prosiect.

7. Rhaid i chi ganiatáu i ni (neu unrhyw un yr awdurdodwn) gael mynediad at bob Eiddo perthnasol (os oes eiddo) a gwybodaeth. Mae hyn er mwyn i ni allu monitro'r Prosiect. Rhaid i chi hefyd ystyried unrhyw argymhellion a wneir gennym (neu unrhyw un yr awdurdodwn) mewn perthynas â'r Prosiect.

8. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi ddarparu prawf eich bod wedi cymryd camau i leihau'r perygl o dwyll. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn gofyn i chi ganiatáu i ni archwilio eich prosesau a'ch gweithdrefnau cyfrifyddu i wirio effeithiolrwydd mesurau gwrth-dwyll.

9. Rhaid i chi fonitro llwyddiant y Prosiect a chwblhau Adroddiad Gwerthuso ar ddiwedd y prosiect. Rhaid i hwn ein bodloni fod y Prosiect wedi'i gwblhau'n llwyddiannus ac yn unol â'r Telerau Grant hyn.

10. Mae'n rhaid i chi roi cyfeiriad neu gyfeiriadau gwe (URL/au) y safle neu'r safleoedd i ni a fydd yn cynnal eich Allbynnau Digidol am y cyfnod penodedig o amser, a diweddarau'r rhain os caiff deunyddiau eu hadleoli. Ar gyfer prosiectau lle mae deunyddiau wedi'u lleoli ar draws ystod o safleoedd, mae angen URL tudalen mynegai ar-lein.

Caffael

11. Oni chytunwn fel arall yn ysgrifenedig, rhaid i chi hysbysebu (y tu allan i'ch sefydliad) pob swydd newydd a thendro unrhyw nwyddau, gwaith a gwasanaethau y telir amdanynt gan y Grant yn unol â'r gofynion a nodwyd yn yr arweiniad Derbyn grant.

Eiddo

12. Rhaid i chi barhau i fod yn berchen ar yr Eiddo a chadw rheolaeth lwyr dros yr hyn sy'n digwydd iddo. Ar wahân i'r hyn a ganiateir o dan Baragraff 17 (Allbynnau Digidol), rhaid i chi beidio â'i werthu, ei osod nac ymadael ag ef neu unrhyw fudd ynddo, na rhoi unrhyw hawliau drosto i unrhyw un arall (neu gymryd unrhyw gamau i wneud hynny) heb ein cymeradwyaeth ymlaen llaw. Os byddwn yn rhoi ein cymeradwyaeth i chi, gall ddibynnu ar unrhyw un o'r gofynion canlynol:

- eich bod yn talu rhan o'r elw net i ni yn sgil gwerthu neu osod yr Eiddo o fewn un mis o ymadael â'r asedau neu'r nwyddau eraill;
- eich bod yn gwerthu neu'n gosod yr Eiddo ar ei werth llawn ar y farchnad;
- unrhyw amodau eraill sy'n briodol yn ein barn ni.

We may claim from you an amount in the same proportion to the sale price as the Grant is to the original cost of the Project, or the portion of the Grant spent on the assets or goods concerned, whichever is the greater.

You must pay whatever we decide is appropriate in the circumstances. We may decide not to ask you to repay the Grant (or any part of it as we think fit) for any reason but it is for us to decide that.

13. Rhaid i chi gynnal a chadw'r Eiddo mewn cyflwr da. Os bydd angen, rhaid i chi hefyd ei gadw mewn amgylchedd priodol a diogel. Rhaid i chi yswirio'r Eiddo i'r safon a nodwyd yn yr arweiniad Derbyn Grant a Cheisiadau Rhaglen (a defnyddio unrhyw dderbyniadau o'r yswiriant yn unol â'r arweiniad).

14. Rhaid i chi drefnu bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad priodol i'r Eiddo. Rhaid i chi sicrhau na wrthodir mynediad i'r Eiddo i unrhyw un yn afresymol.

15. Os yw'r dibenion cymeradwy yn cynnwys defnyddio rhan o'r grant i brynu, derbyn, creu, adfer, gwarchod neu fel arall ariannu Eiddo Trydydd Parti, rhaid i chi gydymffurfio â gofynion Perchenogaeth Trydydd Parti.

Cyhoeddusrwydd a chydabyddiaeth

16. Gallwn gyhoeddi diben a swm y Grant ym mha ffordd bynnag y gwelwn yn briodol.

17. Pan fyddwn wedi cyhoeddi'r Grant, mae'n rhaid i chi gydnabod y Grant yn gyhoeddus yn unol â'r gofynion a nodir yn ein canllawiau ar ein gwefan. Mae'n rhaid i chi fodloni unrhyw ofynion cydnabyddiaeth neu gyhoeddusrwydd eraill y gallwn ddweud wrthyhych amdanynt o bryd i'w gilydd. Cyn i ni wneud cyhoeddiad am y Grant yn gyhoeddus, ni ddylech gyhoeddi unrhyw ddatganiad cyhoeddus, datganiad i'r wasg nac unrhyw gyhoeddusrwydd arall mewn perthynas â'r Grant neu sy'n cyfeirio atom ni, ac eithrio mewn dull a gymeradwywyd gennym ymlaen llaw.

18. Mae'n rhaid i chi hefyd ddarparu delweddau digidol o'ch Prosiect i ni mewn fformat electronig – neu gopiâu caled o ffotograffau neu dryloywluniau. Rydych yn rhoi'r hawl i ni ddefnyddio'r rheiny a ddarparwch i ni unrhyw bryd, gan gynnwys eu trosglwyddo i fformat digidol a'u newid. Rhaid i chi hefyd gymhwyso'r Drwydded Agored Angenrheidiol [Creative Commons Attribution 4.0 International \(CC BY 4.0\)](#) i'r delweddau. Rhaid i chi gael yr holl hawliau sydd eu hangen arnoch chi a ni i'w defnyddio cyn i chi eu defnyddio neu eu hanfon atom.

Allbynnau digidol

19. Rydych yn cytuno i:

- cymhwyso Priodoledd [Creative Commons 4.0 International \(CC BY 4.0\)](#) Trwydded Agored neu gyfwerth, i'r holl Allbynnau Digidol a ariennir gan grant, ac eithrio cod a metadata, ac nid ydynt yn cynnwys asedau parth cyhoeddus nac atgynhyrchiadau digidol nad ydynt yn wreiddiol o asedau parth cyhoeddus (gweler isod).
- nodi a chymhwyso'n glir Creative Commons 0 1.0 Cyffredinol ([CC0 1.0](#)) Cyflwyno Parth Cyhoeddus, neu gyfwerth:
- cod a metadata a grëwyd yn ystod y prosiect; a
- Asedau parth cyhoeddus neu atgynhyrchiadau digidol nad ydynt yn wreiddiol o asedau parth cyhoeddus
- cael a chynnal mewn grym yr holl awdurdodiadau o unrhyw fath sy'n ofynnol i chi gymhwyso'r Drwydded Agored berthnasol neu'r Cyflwyno Parth Cyhoeddus (CC BY 4.0 neu CC0 1.0).
- contractio i'r perwyl bod unrhyw ddeunydd gennyhych chi neu ar eich rhan chi neu ar eich rhan o ddeunydd sy'n ffurfio Allbynnau Digidol yn cael ei wneud ar delerau bod naill ai'r hawlfraint yn y deunydd digidol wedi'i neilltuo i chi neu fod perchennog yr hawlfraint yn cytuno y gellir rhannu deunydd o dan Drwydded Agored CC ERBYN 4.0 neu gyfwerth.;
- sicrhau bod yr Allbynnau Digidol yn cael eu diweddarau, eu gweithredu fel y bwriadwyd ac nad ydynt yn darfod cyn pum mlynedd o Ddyddiad Cwblhau'r Prosiect;

- cydymffurfio â'r Telerau Grant Safonol hyn mewn perthynas â'r ffeiliau digidol sy'n ffurfio'r Allbynnau Digidol ar gyfer y cyfnod y cytunwyd arno yn y Llythyr Hysbysu am Grant. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad ar-lein am ddim a rhydd i'r Allbynnau Digidol. Ni ddylech ryddhau Allbynnau Digidol eich prosiect ar delerau eraill heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Talu ac ad-dalu'r grant

20. Byddwn, hyd at y Dyddiad y Daw'r Grant i Ben, yn talu'r Grant i chi neu randaliad ohono yn unol â'r telerau grant hyn a'r gweithdrefnau a esboniwyd yn Derbyn Grant ar yr amod:

- bod y Loteri Genedlaethol yn parhau i weithredu o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd), a bod digon o gyllid ar gael i ni o dan y Ddeddf; ac
- ein bod yn fodlon eich bod yn cyflawni (ac y byddwch yn parhau i gyflawni) neu wedi cyflawni'r Dibenion Cymeradwy yn unol â'r Telerau Safonol Grant hyn a'ch bod yn gwario'r Grant yn gymesur ag unrhyw gyllid arall a gewch o ffynonellau eraill ar gyfer y Dibenion Cymeradwy.

21. Os byddwch yn cwblhau'r Prosiect heb wario swm llawn y Grant, rhaid i chi ddychwelyd y swm nas gwariwyd i ni ar unwaith. Ni fyddwn yn cynyddu'r Grant o ganlyniad i orwario neu fel arall.

22. Rhaid i chi ad-dalu i ni unrhyw ran o'r Grant a dalwyd gennym i chi ar unwaith (a byddwn yn atal unrhyw randaliadau o'r Grant yn y dyfodol):

- os ydych wedi rhoi'r gorau i weithredu, neu os cawsoch eich datgan yn fethdalwr, neu os aethoch i law'r derbynnydd neu'ch diddymu;
- eich bod, yn ein barn ni, wedi rhoi gwybodaeth dwyllodrus, anghywir neu gamarweiniol i ni;
- eich bod wedi gweithredu'n esgeulus mewn unrhyw fater arwyddocaol neu'n dwyllodrus mewn cysylltiad â'r Prosiect;
- bod unrhyw awdurdod cymwys yn arwain ad-dalu'r Grant
- os oes newid sylweddol yn eich statws;
- eich bod yn celu gwybodaeth sy'n berthnasol i gynnwys eich Cais yn fwriadol;
- os ydych yn gwneud unrhyw beth neu'n methu â gwneud unrhyw beth sy'n dwyn anfri arnom ni neu'r Loteri Genedlaethol, neu yr ydym yn ei ystyried am unrhyw reswm yn rhoi arian cyhoeddus mewn perygl, neu'n terfynu neu atal unrhyw grant arall yr ydym wedi'i roi i chi;
- os methwch â gwneud cynnydd da gyda'r Prosiect neu os nad ydych yn debygol yn ein barn ni o gwblhau'r Prosiect na chyflawni'r Canlyniadau y cytunwyd arnynt gyda ni; neu
- os ydych yn methu cadw at unrhyw rai o'r Telerau Safonol Grant hyn.

23. Os byddwch yn gwerthu'r Eiddo neu'n cael gwared â'r Eiddo i gyd neu ran ohono heb ein caniatâd ni o dan baragraff 11, neu os byddwch yn derbyn arian mewn rhyw ffordd arall o ganlyniad i beidio â dilyn y telerau grant hyn, efallai y bydd rhaid i chi dalu cyfran o'r elw net i ni ar unwaith os yw'r gyfran honno'n fwy na'r swm y byddai hawl gennym i'w gael o dan baragraff 21.

Telerau Cyffredinol

24. Os bydd mwy nag un ohonoch, bydd unrhyw rwymedigaeth o dan y Telerau Grant Safonol hyn yn gymwys i chi gyd gyda'ch gilydd ac ar wahân.

25. Bydd Tymor y Contract Grant yn para am y cyfnod a nodir yn y Llythyr Hysbysiad Grant.